## ATODLEN 2

Rheoliad 17

### Diwygiadau Amrywiol i'r Prif Reoliadau

**Diwygiadau i'r Prif Reoliadau**

**1.** Mae testun Cymraeg y Prif Reoliadau wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn rheoliad 2 (dehongli), ar ôl y diffiniad o "Deddf 1989" mewnosoder—

"ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008(**1**);".

**3.** Yn rheoliad 14 (gofyniad i ddarparu cwnsela etc.)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oes gan dad y plentyn neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac mae'r asiantaeth fabwysiadu yn gwybod pwy yw'r person hwnnw.", a

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl "tad", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008",

(ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "adran 4" rhodder "adran 4 neu 4ZA", a

(iii) yn is-baragraff (b)(ii)—

(aa) yn lle "preswylio neu orchymyn cyswllt" rhodder "trefniadau plentyn", a

(bb) yn lle "preswyliad, cyswllt" rhodder "gorchmynion trefniadau plentyn".

**4.** Yn rheoliad 17(1)(ch), (d) ac (e) (gofyniad i baratoi adroddiad ysgrifenedig), ar ôl "tad y plentyn" ac "ei dad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**5.** Yn rheoliad 19(3) (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) unrhyw berthynas neu berson arwyddocaol arall yr ymgynghorodd yr asiantaeth ag ef o dan reoliad 14(1) gan gynnwys—

(i) unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn trefniadau plentyn o dan adran 8 o Ddeddf 1989, fel person y mae'r plentyn i dreulio amser gydag ef neu i gael cyswllt ag ef fel arall, neu

(ii) unrhyw berson y mae gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 1989 (cyswllt rhiant â phlant mewn gofal) wedi ei wneud o'i blaid,

pan fo'r gorchymyn hwnnw mewn grym yn union cyn yr awdurdodir yr asiantaeth i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu;";

(b) yn is-baragraff (c), ar ôl "tad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**6.** Yn rheoliad 34(4)(b) (penderfyniad yr asiantaeth fabwysiadu o ran y lleoliad arfaethedig), ar ôl "tad y plentyn," mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008,".

**7.** Yn rheoliad 39(2)(b) (tynnu cydsyniad yn ôl), ar ôl "tad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

(**1**) 2008 p. 22.

**8.** Ym mharagraffau 13(a)(i) a 14 o Ran 1 o Atodlen 1 (gwybodaeth am y plentyn), ar ôl "ei dad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008".

**9.** Yn Rhan 3 o Atodlen 1 (gwybodaeth am deulu'r plentyn ac eraill)—

(a) yn y pennawd o flaen paragraff 1, ar ôl "am y plentyn" mewnosoder "neu fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 nad oes ganddi gyfrifoldeb rhiant am y plentyn",

(b) yn lle paragraff 16 rhodder—

"**16.** Os nad yw rhieni'r plentyn yn briod neu'n bartïon mewn partneriaeth sifil, a oes gan y tad neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008 gyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac os felly, sut y cafwyd ef.",

(c) yn lle paragraff 17 rhodder—

"**17.** Os na wyddys pwy yw tad y plentyn neu ble y mae, neu pwy yw'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008 neu ble y mae, yr wybodaeth amdano neu amdani sy'n hysbys a phwy a'i rhoes, a'r camau a gymerwyd i ddarganfod pwy yw'r rhiant.",

(d) yn y pennawd o flaen paragraff 24, ar ôl "tad" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf 2008", ac

(e) ym mharagraff 27, ar ôl "thad y plentyn" mewnosoder "neu'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 42 neu 43 o Ddeddf 2008".